Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
61/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
22/11/2018

# Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru: Cyfathrebu a Marchnata'r Cynnig

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-430-2

Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru: Cyfathrebu a Marchnata'r Cynnig

Awdur: Alison Glover, Stuart Harries, Jennifer Lane and Sioned Lewis, Arad Research ac NatCen Social Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Glover, A., Harries, S., Lane, J., Lewis, S., *Gwerthusiad o Weithredu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn Gynnar.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR report number 61/2018.
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-childcare-offer-wales/?lang=cy

Y safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw rheini'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Hannah Davies
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Hannah.Davies018@gov.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....4
Geirfa ....5
1. Rhagarweiniad ....6
2. Methodoleg ....8
3. Canfyddiadau ....9
4. Casgliadau ....20
5. Argymhellion ....22
Atodiad A: Model Rhesymeg y Cynnig Gofal Plant ....23
Atodiad B: Sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad ....24

**Rhestr o dablau**

Tabl 2.1. Gwaith maes yn llywio'r gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ..................... 8

## Geirfa

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Cynnig Gofal Plant | 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio o blant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn. |
| EILA | Awdurdod Lleol Gweithredwr Cynnar. |
| Cyfnod Sylfaen | Y cwricwlwm datblygiadol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed. |
| FIS | Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd - y pwynt cyswllt ar gyfer cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol i deuluoedd a gofalwyr ac yn darparu gwybodaeth am ofal plant. |
| FPN | Darpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen - lleiafswm o 10 awr yr wythnos o addysg gynnar a ariennir ar gyfer plant tair a phedair oed yn ystod y tymor, o'r tymor yn dilyn trydydd pen-blwydd plentyn. Cyfeirir ati hefyd fel addysg gynnar ac addysg gynnar a ariennir. |
| Darparwr a gynhelir | Lleoliad gofal plant a gynhelir gan yr awdurdod lleol. |
| Darparwr nas cynhelir | Lleoliad gofal plant sy'n cael ei weithredu gan ddarparwr gofal plant preifat, gwirfoddol neu annibynnol. |
| Gofal Plant Di-dreth | Bydd Llywodraeth y DU yn talu £2 ar gyfer bob £8 a delir am ofal plant ar gyfer plant dan 11 oed, os yw rhieni'n gweithio am o leiaf 16 awr yr wythnos. |

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn un o dri phapur ychwanegol a gynhyrchwyd ochr yn ochr â'r prif adroddiad gwerthuso o weithredu cynnar (12 mis cyntaf) y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Ymchwil Arad rhwng Gorffennaf 2017 a Hydref 2018.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfathrebu a'r marchnata sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant. Mae'n adolygu'r prosesau cyfathrebu sydd wedi digwydd ar lefel genedlaethol Llywodraeth Cymru, yn arbennig mewn perthynas â'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar (EILAs); cyfathrebu rhwng EILAs a darparwyr lleol a chyfathrebu rhwng darparwyr a rhieni sy'n cymryd rhan. Mae'n cael ei lywio gan ymchwil ddesg, cyfweliadau â thimau Cynnig EILA, sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, darparwyr gofal plant a rhieni.

1.3 Mae gweddill yr adran hon yn darparu cyd-destun cefndirol, â throsolwg o gyflenwi'r Cynnig Gofal Plant ar draws y saith EILA. Mae Adran 2 yn cyflwyno trosolwg o'r fethodoleg ac yn amlygu'r meysydd a ymchwiliwyd i sicrhau dealltwriaeth lawn o gyfathrebu'r Cynnig. Mae Adran 3 yn trafod canfyddiadau'r gwerthusiad ar gyfathrebu, mae adran 4 yn cyflwyno'r casgliadau ac mae adran 5 yn cynnig argymhellion i'w hystyried wrth i'r Cynnig Gofal Plant gael ei weithredu ledled Cymru

## Y Cynnig Gofal Plant

1.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfanswm o 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth am 48 wythnos y flwyddyn, sy'n cynnwys naw wythnos yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn targedu plant tair a phedair oed lle mae eu rhieni yn ennill lleiafswm wythnosol sy'n gyfwerth i, neu sy'n fwy nag 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol.

1.5 Mae canlyniadau arfaethedig y Cynnig yn cynnwys:

- Bydd gan rieni fwy o ddewisiadau cyflogaeth
- Byddgan rieni incwm cynyddol i'w wario

- Bydd rhieni'n gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch ddefnyddio gofal plant ffurfiol
- Bydd y sector gofal plant yn tyfu mewn ymateb i alw a derbyniad cynyddol o ofal plant ffurfiol.

1.6 Mae Atodiad A yn darparu manylion pellach ar yr allbynnau a'r canlyniadau ar gyfer y Cynnig.

1.7 Ers Medi 2017 mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael yn y saith awdurdod lleol sy'n gweithredwyr cynnar (EILAs), a oedd yn cynnwys y cyfan, neu ran o, yr awdurdodau lleol dilynol;

- Ynys Môn a Gwynedd (gweithio ar y cyd)
- Blaenau Gwent
- Caerffili
- Sir Fflint
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe.

1.8 Dechreuodd ceisiadau am ariannu lleoedd gofal plant ym mis Mehefin 2017, er mwyn i blant gyrchu lleoedd o fis Medi 2017. Y nifer o blant a gyrchodd y Cynnig Gofal Plant yn ystod y flwyddyn gyntaf ar gyfer y saith EILA oedd 4,101.[1] Cynhwyswyd y cyfan o awdurdod lleol Blaenau Gwent o'r cychwyn cyntaf, â'r cynnig ar gael mewn rhannau o'r chwe EILAS arall. Ychwanegwyd ardaloedd ychwanegol o fewn y chwe EILA hyn er mwyn ehangu argaeledd y Cynnig Gofal Plant i fwy o blant ym mis Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018.

[1] Data monitro Llywodraeth Cymru.

## 2. Methodoleg

2.1 Ymgymerwyd ag ymagwedd ddulliau cymysg i gasglu adborth ynghylch cyfathrebu a marchnata'r Cynnig Gofal Plant. Archwiliwyd y data monitro a gweinyddol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan bob EILA ac ymgymerwyd â'r ystod o waith maes a amlinellir yn Nhabl 2.1.

**Tabl** Error! No text of specified style in document.**.1. Gwaith maes yn llywio'r gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru**

| Cyfranogwr | Dull | Nifer o ymatebwyr | Pryd |
|---|---|---|---|
| Swyddogion Llywodraeth Cymru | Cyfweliadau ffôn ac wyneb yn wyneb | 11 | Trwy gydol y cyfnod gwerthuso |
| Pob cynrychiolydd tîm Cynnig Gofal Plant EILA | Cyfweliadau wyneb yn wyneb | 1-4 o staff ym mhob EILA; 18 cyfweliad | Hydref 2017; Yn gynnar yn 2018 a Medi 2018 |
| Sefydliadau rhanddeiliaid allweddol* | Cyfweliadau ffôn ac wyneb yn wyneb | 14 | Gorffennaf i Fedi 2018 |
| Darparwyr Gofal Plant yn Cyfranogi | Cyfweliadau ffôn | 150 | Mawrth i Fedi 2018 |
| Rhieni'n cymryd rhan | Arolwg ar-lein | 555 | Mai 2018 |
| Rhieni'n cymryd rhan | Cyfweliadau ffôn | 36 | Awst/Medi 2018 |
| Rhieni heb gymryd rhan | Cyfweliadau ffôn | 21 | Awst/Medi 2018 |

Sylwer: gellir canfod rhagor o wybodaeth am y fethodoleg yn adran fethodoleg y prif adroddiad gwerthuso.

*Mae Atodiad B yn cynnwys y rhestr o randdeiliaid a gyfwelwyd.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Mae cyfathrebu wedi bod yn bwysig wrth ddatblygu a gweithredu Cynnig Gofal Plant yn gynnar yng Nghymru. Mae'r bennod hon yn nodi'r canfyddiadau sy'n ymwneud â chyfathrebu ar dair lefel wahanol, sef Llywodraeth Cymru, yr EILAs a'r darparwyr.

**Cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach, EILAs, darparwyr a rhieni**

3.2 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid fel rhan o broses ddatblygu'r Cynnig. Nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn (y rhestr yn Atodiad B) eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn y broses o ddatblygu'r Cynnig ac roeddent yn credu bod y cyfathrebu â sefydliadau cenedlaethol wedi bod yn dda. Roedd y rhai hynny a oedd yn rhan o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid penodedig hefyd yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan.

3.3 Fe wnaeth y saith awdurdod lleol a fu'n llwyddiannus yn eu cais i gymryd rhan yn y Cynnig (yr EILAs) gymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn fisol yn ystod y cyfnod yn arwain at y Cynnig ac yn ystod y cyfnod cyflenwi cynnar gan ffurfio rhan allweddol o lunio manylion y Cynnig. Oherwydd hynny, roedd EILAs yn gwybod am elfennau allweddol y Cynnig o'r cychwyn cyntaf, gan negyddu'r angen i 'gyfathrebu'r' polisi yn benodol iddynt.

3.4 Yn y misoedd yn arwain at lansio'r Cynnig, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch gyhoeddusrwydd cyn-Gynnig ac ymarfer ymgynghori o'r enw #TrafodGofalPlant i gasglu barn rhieni a darparwyr ar ofal plant. Dechreuodd yr ymgyrch ym mis Awst 2016 ac roedd yn cynnwys arolwg ar-lein a chyfres o ddigwyddiadau a grwpiau ffocws gyda rhieni. Dechreuodd cam dau o'r ymgynghoriad #TrafodGofalPlant ym mis Hydref 2017 gan ganolbwyntio ar ddarparwyr. Adroddwyd am ganfyddiadau cryno o gam un ar dudalennau gofal plant Llywodraeth Cymru[2] ac mae disgwyl i

[2] Llywodraeth Cymru (2017) *Ymgyrch #TrafodGofalPlant*. [AR-LEIN] [Cyrchwyd 22 Hydref 2018].

ganfyddiadau cryno o gam dau gael eu rhannu'n hwyr yn 2018. Fe wnaeth llawer o rieni a darparwyr ledled Cymru gymryd rhan mewn digwyddiadau'r ymgyrch ac roedd adborth cadarnhaol yn gyffredinol gan randdeiliaid ar yr ymgyrch. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o'r darparwyr a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn oedd yn cydnabod y term #TrafodGofalPlant, ac roedd rhai cynrychiolwyr darparwyr o'r farn y dylid fod wedi cynnwys cyfathrebu ar lefel fwy cenedlaethol i ddarparwyr yng nghylch cyntaf yr ymgyrch.

3.5 Fe ddigwyddodd datblygiad cychwynnol a gweithredu cynnar y Cynnig Gofal Plant o fewn amserlen heriol. Fodd bynnag, er gwaethaf yr her hon, cafodd y Cynnig ei lansio a'i weithredu'n llwyddiannus ym mhob un o'r saith EILA ym mis Medi 2017. Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw o'r farn bod y cyfathrebu a'r berthynas weithio agos a ddatblygwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac EILAs yn ystod 2017 wedi bod yn allweddol i gyflawni hyn.

3.6 Nododd timau cynnig EILA eu bod yn croesawu'r ffordd y bu Llywodraeth Cymru yn eu cynnwys yn gynnar yn y broses, hyd yn oed cyn i'r polisi a'r canllawiau ar gyfer profi cynnar gael eu cwblhau. Fe fabwysiadodd Llywodraeth Cymru ymagwedd gyd-gynhyrchu fwriadol, a oedd hefyd yn angenrheidiol o ystyried yr amserlenni heriol dan sylw. Canlyniad hyn oedd bod EILAs yn cymryd mwy o berchenogaeth ar y broses gyflwyno Cynnig gofal plant, a oedd yn ei dro yn cefnogi eu hymrwymiad i oresgyn heriau cynnar yn llwyddiannus. Nododd un tîm Cynnig EILA eu bod yn croesawu'r ffaith nad oedd Llywodraeth Cymru yn 'gosod' Cynnig Gofal Plant arnynt mewn 'ffordd ragnodol' a bod yr amserlenni heriol dan sylw yn annog perthnasoedd gweithio mwy agored, a oedd yn ei dro yn sicrhau bod llawer mwy wedi'i gyflawni nag a fyddai wedi bod yn wir fel arall.

### Cyfathrebu rhwng EILAs a darparwyr gofal plant lleol

3.7 Rôl allweddol i'r EILA, yn arbennig yn ystod cam gweithredu cychwynnol y Cynnig, oedd ymgysylltu â darparwyr gofal plant o fewn eu hardal awdurdod lleol er mwyn eu hysbysu o'r Cynnig a'u hannog i ymuno i ddarparu'r gofal plant a ariennir. Ar ôl i'r Cynnig gael ei lansio, roedd timau Cynnig EILA mewn cysylltiad rheolaidd â'r darparwyr i ateb unrhyw ymholiadau ac i dderbyn gwybodaeth archebu a thalu.

3.8 O'r gwanwyn 2017 ymlaen, cyflwynodd timau Cynnig EILA weithdai a anelwyd at ddarparwyr gofal plant ar draws eu meysydd cyflenwi er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynnig ac ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon. Roedd y broses hon yn llwyddiannus iawn i raddau helaeth â'r rhan fwyaf o ddarparwyr ar draws yr holl EILAs wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig.

3.9 Mae lefel yr ymgysylltu rhwng EILAs a darparwyr wedi dibynnu i raddau helaeth ar y cysylltiadau hanesyddol rhwng aelodau tîm Cynnig EILA a'r sector gofal plant lleol. Mae hyn wedi bod yn gryfach mewn rhai EILAs nag eraill. Serch hynny, roedd mwyafrif helaeth (85 y cant o'r darparwyr a gyfwelwyd) wedi clywed am y Cynnig gan eu hawdurdod lleol. Roedd hyn yn gyson ar draws yr holl EILAs, a dywedodd bron pob darparwr a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn fod ganddynt berthnasoedd gweithio parhaus a chyfathrebu da â'u timau Cynnig EILA. Roedd y cyfathrebu parhaus hwn ar ôl i'r cyflenwi ddechrau, yn bennaf ar ffurf 'ymholiadau ffôn ynghylch y system archebu neu dalu' neu i wirio sut i ymdrin â senarios newydd nad oeddent yn y canllawiau eto.

3.10 Roedd rhai darparwyr ychydig yn feirniadol o'r amseriad y clywsant am rai manylion o'r Cynnig, gan esbonio bod llawer o gwestiynau heb eu hateb yn y gweithdai rhagarweiniol, â gwybodaeth glir, gan gynnwys cadarnhad o'r gyfradd i'w thalu, dim ond yn dod ar gael yn nes at ddyddiad y lansiad Fodd bynnag, dywedodd darparwyr eu bod yn deall bod yr EILAs 'yn dal i gadarnhau rhai manylion ar adeg y cyfarfod' ac, mewn gwirionedd, 'nid oedd rhai pethau'n glir nes eu bod yn rhedeg y Cynnig mewn gwirionedd'.

3.11 Er bod yr ymgysylltu rhwng EILAs a darparwyr wedi bod yn dda, mae ffocws y broses ymgysylltu wedi bod yn bennaf, fel y gellid ei ddisgwyl, ar ddarparwyr yn gweithredu o fewn ardal beilot yr EILA. Fodd bynnag, gan fod y Cynnig yn dilyn y

plentyn, gall rhieni dderbyn y Cynnig â darparwr gofal plant y tu allan i'w awdurdod lleol cartref - gan gynnwys awdurdodau na chawsant eu cynnwys yn y cam gweithredu cynnar. Roedd y darparwyr hyn yn llai tebygol o fod yn rhan o rowndiau cychwynnol cyfathrebu ac ymgysylltu â'r EILA.

3.12 Yn ychwanegol at hyn, mae rhai darparwyr wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae rhieni o fwy nag un awdurdod lleol yn cyrchu gofal plant a ariennir gan y Cynnig â nhw. Yn yr achosion hyn, roedd angen i'r darparwr ymgysylltu a chynnal cyswllt rheolaidd â nhw, yn ogystal â darparu gwybodaeth fisol ar oriau a archebwyd, presenoldeb a threfniadau anfonebu i ddwy EILA neu fwy. Dyna oedd yn wir i dri o'r darparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld, er eu bod hefyd wedi nodi bod cyfathrebu rhyngddynt a'r EILAs wedi bod yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, gallai cynnal cyswllt gweinyddol rheolaidd â mwy nag un awdurdod lleol fod yn heriol i rai darparwyr, yn arbennig os yw'r oriau o gyflwyno FPN (ac felly nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael) yn wahanol i blant sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol gwahanol - fel sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn sawl achos. Roedd rhai darparwyr eisoes wedi nodi rhai heriau yn hyn o beth, pan oedd gwahanol leoliadau meithrin ysgol, o fewn yr un awdurdod lleol, yn darparu nifer wahanol o oriau FPN. Mewn rhai achosion, gallai hyn fod yn wahanol yn ôl a oedd y plentyn yn derbyn sesiynau FPN bore neu brynhawn o fewn yr un lleoliad.

3.13 Roedd sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector gofal plant yn chwarae rhan allweddol wrth ategu'r wybodaeth gan EILAs i ddarparwyr (ac i raddau llai, i rieni). Fe wnaethon nhw friffio eu haelodau trwy gylchlythyrau, digwyddiadau a chyswllt â gweithwyr rhanbarthol/cymorth. Datgelodd cyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid hyn benderfyniad ar eu rhan i sicrhau bod y broses o weithredu'n gynnar yn cael ei chyflwyno mor esmwyth â phosibl ac fe wnaethon nhw fuddsoddi llawer iawn o amser staff i sicrhau bod y darparwyr gofal plant yn cael gwybodaeth dda ac yn cael eu hannog i gymryd rhan. Roedd lefel y cymorth yn amrywio o ardal i ardal gan fod gan sefydliadau (fel Mudiad Meithrin, Blynyddoedd Cynnar Cymru) aelodau rhanbarthol o staff sy'n gweithio yn y maes mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, a delir amdanynt gan gyllid o'r awdurdod lleol, ac felly byddent yn fwy cysylltiedig ac yn gyfredol â'r Cynnig yn yr ardal honno.

**Cyfathrebu rhwng EILAs a rhieni**

3.14 Yn bennaf, rhannodd yr EILA wybodaeth â rhieni trwy eu gwefannau, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) a thrwy ddarparu deunyddiau printiedig i'w dosbarthu trwy'r darparwyr. Roedd ychydig o dan chwarter y rhieni a ymatebodd i'r arolwg wedi clywed am y Cynnig gan yr awdurdod lleol.

3.15 Fe wnaeth un EILA gyflwyno'r Cynnig ar draws yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'n gynnar ac oherwydd hynny, roeddent yn gallu rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynnig yn ehangach i bob rhiant cymwys waeth beth oedd eu cod post. Fe wnaeth yr EILA hwn ddarparu sesiynau gwybodaeth ar gyfer rhieni ar draws yr awdurdod, (â lefelau presenoldeb yn amrywio o ardal i ardal), hyrwyddo'r Cynnig trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, baner dreigl ar wefan yr awdurdod lleol a phosteri mewn safleoedd awdurdod lleol. Tua diwedd y flwyddyn roeddent wedi comisiynu fideo gwybodaeth[3] yn barod ar gyfer yr ail flwyddyn o gyflwyno.

3.16 Er gwaethaf gwaith hyrwyddo'r awdurdod lleol, roedd nifer y rhieni oedd yn cyrchu'r Cynnig yn yr EILA hwn yn gymharol isel o'i chymharu â'r EILAs eraill am y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, dyma ardal sydd â defnydd isel o ofal plant ffurfiol yn hanesyddol. Oherwydd hynny, nid yw'n bosibl priodoli nifer y rhieni oedd yn cyrchu'r Cynnig i'r dull hyrwyddo a fabwysiadwyd yn yr ardal hon.

3.17 Er bod rhai rhieni wedi nodi eu bod wedi dod yn ymwybodol o'r Cynnig trwy gysylltu â'u tîm Cynnig EILA yn uniongyrchol, daeth y mwyafrif yn ymwybodol o'r cyfle gan eu darparwr gofal plant (gweler yr adran nesaf). Roedd cyswllt rhieni ag EILAs yn canolbwyntio'n bennaf ar y broses ymgeisio, yn arbennig darparu tystiolaeth ynghylch cymhwysedd a thasgau gweinyddol eraill.

[3] Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2018 *Gwybodaeth i Rieni AR-LEIN* [Cyrchwyd 22 Hydref 2018]

**Cyfathrebu rhwng darparwyr a rhieni**

3.18 Prif ddarparwyr gwybodaeth am y Cynnig i rieni oedd darparwyr gofal plant. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r rhieni a arolygwyd (60 y cant) gael wybod am y Cynnig gan eu darparwyr gofal plant presennol. Fe wnaeth ychydig dros chwarter y rhieni a arolygwyd (26 y cant) gael wybod am y Cynnig ar lafar a 26 y cant gan eu ALI[4].

3.19 Felly mae darparwyr gofal plant wedi chwarae rhan bwysig o ran hyrwyddo'r Cynnig a chodi ymwybyddiaeth rhieni. Nododd dros 90 y cant o'r darparwyr gofal plant a gyfwelwyd eu bod wedi hyrwyddo'r Cynnig i rieni. Roedd gwarchodwyr plant yn dueddol o hyrwyddo ac esbonio'r Cynnig mewn sgyrsiau uniongyrchol gyda rhieni tra bod llawer o feithrinfeydd a chylchoedd chwarae wedi hysbysu cwsmeriaid presennol a rhai posibl y dyfodol o'r Cynnig trwy bosteri a thaflenni a ddarparwyd gan yr EILA. Hefyd fe wnaeth rhai darparwyr gynhyrchu eu fersiynau eu hunain o'r posteri a'r taflenni hyn a hyrwyddo'r Cynnig ar gyfryngau cymdeithasol, eu gwefan eu hunain, cylchlythyrau a thrafodaethau un wrth un gyda rhieni. Roedd dau ddarparwr a gyfwelwyd wedi buddsoddi mewn gwaith hyrwyddo ychwanegol, megis baneri a hysbysebion yn y papur di-dâl lleol; nododd un o'r darparwyr hyn fod y gwaith hyrwyddo hwn wedi arwain at gwsmeriaid newydd tra bod un arall wedi esbonio, er gwaethaf eu hymdrechion hyrwyddo, nad oeddent wedi cael unrhyw gleientiaid newydd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

3.20 Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd darparwyr o'r farn bod eu cysylltiad uniongyrchol a gwaith codi ymwybyddiaeth gyda rhieni wedi gweithio'n dda ac roeddent yn ystyried ei fod yn ffordd o roi sicrwydd i rieni ynghylch dilysrwydd y Cynnig yn ogystal â chyfle i ateb ymholiadau cychwynnol am y broses ymgeisio. Nododd rhai darparwyr eu bod wedi gorfod ailadrodd rhai negeseuon sawl gwaith i rieni ac mewn rhai achosion gynnig cymorth uniongyrchol yn y broses ymgeisio. Os nad oedd darparwyr yn gallu darparu'r wybodaeth a/neu'r cymorth i rieni yr oedd arnynt eu hangen, roeddent yn eu cyfeirio at dîm Cynnig EILA.

'Roedd yn rhaid i mi ailadrodd pethau i rieni cryn nifer o weithiau - nid oedd llawer yn deall nac yn credu y byddent yn gymwys, ac fe wnaeth rhai rhieni ganfod bod

[4] Nododd rhai rhieni fwy nag un ffynhonnell, felly mae'r cyfanswm yn fwy na 100 y cant.

y broses ymgeisio'n anodd, felly roedd yn rhaid i ni eu helpu â hyn hefyd'. (darparwr gofal plant)

3.21 Fe gafodd y pwynt hwn a godwyd gan ddarparwyr ynghylch rhai rhieni nad oeddent yn deall y Cynnig ei godi hefyd gan EILAs a rhanddeiliaid. Nododd dau ddarparwr fod rhai o'u rhieni o'r farn bod y Cynnig 'yn rhy dda i fod yn wir' neu eu bod wedi'i anwybyddu ar y dechrau heb wirio'r manylion gan eu bod yn rhagdybio na fyddai'n gymwys iddynt fel rhieni a oedd yn gweithio.

**Cyfyngiadau'r cyfathrebu rhwng darparwyr a rhieni**

3.22 Er bod y broses o ledaenu gwybodaeth ynghylch y Cynnig i rieni yn uniongyrchol gan ddarparwyr wedi gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o achosion, fe fu rhai cyfyngiadau ar y math hwn o hyrwyddo. Y cyfyngiad cyntaf oedd lefel cysondeb a chywirdeb y wybodaeth a drosglwyddwyd i rieni gan ddarparwyr. Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr wedi cael posteri a thaflenni gwybodaeth a ddarparwyd gan yr EILA y gallent eu rhannu â rhieni, cafodd y rhain eu haddasu gan rai darparwyr ac roedd eraill yn dibynnu ar rannu ar lafar y wybodaeth yr oeddent wedi'i chodi yn ystod eu cyfarfodydd ag EILAs. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a drosglwyddwyd yn gywir - fodd bynnag, roedd achosion pan nad oedd y wybodaeth a drosglwyddwyd yn eglur gan arwain at rywfaint o ddryswch ar ran rhieni, ynglŷn â manylion yr hyn y byddent yn gymwys i'w gael.

3.23 Cyfyngiad arall o ddibynnu ar ddarparwyr i hyrwyddo'r Cynnig yw mai rhieni sydd eisoes yn cyrchu gofal plant ffurfiol yn bennaf sy'n dod yn ymwybodol ohono. Mae negeseuon a hyrwyddir yn y modd hwn yn llai tebygol o gyrraedd rhieni sy'n derbyn gofal plant anffurfiol ar hyn o bryd yn unig. Yn ychwanegol at hyn, mae darparwyr dim ond yn debygol o hyrwyddo'r Cynnig os oes ganddynt y gallu i ddarparu gofal plant a ariennir yn y modd hwn. Mae darparwyr a benderfynodd peidio â chofrestru i gyflwyno'r Cynnig wedi bod yn llai tebygol o hyrwyddo'r Cynnig. Nododd ychydig o rieni a gafodd eu cyfweld nad oeddent wedi dod yn ymwybodol o'r Cynnig am gryn dipyn o amser ar ôl i'w plentyn ddod yn gymwys ac felly roeddent wedi methu â chael ychydig fisoedd o ofal plant a ariennir. Yn y ddau achos hyn, nid oedd eu

darparwr gofal plant presennol wedi cofrestru i gyflwyno'r Cynnig ac felly nid oedd ganddynt unrhyw reswm i ddwyn y Cynnig i sylw'r rhiant.

3.24 Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, roedd y Cynnig ar gael mewn wardiau dethol mewn chwech o'r saith EILA yn unig. O ganlyniad, roedd yn rhaid targedu gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo ar feysydd penodol. Fe wnaeth ELIAs osgoi ymgyrchoedd hyrwyddo ar draws yr awdurdod gan nad oeddent am gam-arwain rhieni a oedd wedi'u lleoli mewn wardiau nad oeddent yn gymwys. Am yr un rheswm, ni ellid gweithredu ymgyrch hyrwyddo genedlaethol Cymru gyfan yn ystod y flwyddyn gyntaf. Rhoddodd hyn gyfyngiadau pellach ar gyrhaeddiad posib gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo yn ystod y cyfnod peilot. Bydd y cyfyngiadau hyn yn lleihau wrth i'r Cynnig gael ei gyflwyno ymhellach ac wrth i gyfleoedd ar gyfer ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol gael eu lansio.

**Cyfathrebu ag ysgolion**

3.25 Mae'r rhan fwyaf o'r cyfathrebu a'r ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r Cynnig wedi bod rhwng EILAs, rhieni a darparwyr gofal plant sy'n gweithredu mewn lleoliadau nas cynhelir. Mae hyn yn ddealladwy gan mai dyma'r unigolion a'r sefydliadau sydd angen ymateb yn bennaf mewn rhyw fodd i ddarparu ar gyfer y Cynnig.

3.26 Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cynnwys darparu addysg Feithrin Cyfnod Sylfaen (FPN) yn ogystal â gofal plant. Darperir y rhan fwyaf o ddarpariaeth FPN yng Nghymru mewn lleoliadau ysgolion cynradd sy'n gweithredu yn y sector a gynhelir. Fodd bynnag, mae cyfathrebu a hyrwyddo'r Cynnig ag ysgolion wedi bod yn gyfyngedig yn ystod y flwyddyn gyntaf - o bosibl gan ei fod yn fusnes fel arfer i ddarparwyr FPN gan nad oedd angen iddynt newid unrhyw un o'u prosesau cyflenwi neu weinyddu FPN i ddarparu ar gyfer y Cynnig. Dywedodd nifer fach o ddarparwyr eu bod wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiadau rhieni neu y gofynnwyd iddynt ddarparu deunydd ar gyfer pecynnau newydd i rieni, ond fe wnaeth y gwahoddiadau hyn adeiladu ar berthnasoedd hirdymor neu gydleoli â'u hysgolion lleol. Nid oedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn ymwybodol o unrhyw broses o rannu gwybodaeth ynghylch y Cynnig gan eu hysgolion cynradd lleol, ac roeddent yn 'synnu nad oedd y rhieni wedi clywed amdano drwy'r ysgolion.'

'Ond ymddengys nad yw'r ysgolion yn gwybod llawer amdano. Ymddengys fod darparwyr gofal plant fel ni, a'r meithrinfeydd a gwarchodwyr plant, ymddengys eu bod yn gwybod llawer am y Cynnig, ond nid yw ysgolion, nid oes ganddynt daflenni na baneri o gwmpas yr ysgol. (Darparwr gofal dydd sesiynol)

3.27 O gofio bod yr FPN yn gynnig cyffredinol sydd ar gael i bob plentyn 3 a 4 oed yng Nghymru, mae'n bosibl y byddai rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynnig trwy'r ysgolion cynradd lle mae'r rhan fwyaf o FPN yn cael ei gyflllenwi wedi darparu cyfleoedd pellach i gyrraedd grŵp ehangach o blant a rhieni cymwys, ac y byddai wedi cael ei groesawu gan ddarparwyr gofal plant. Fodd bynnag, dywedodd EILAs eu bod wedi wynebu rhai heriau ynghylch annog ysgolion i ymgysylltu â'r Cynnig. Awgrymwyd ychydig o resymau posibl am hyn.

3.28 Y cyntaf oedd gallu. Fel arfer roedd y timau Cynnig EILA yn fach - fel arfer yn cynnwys un neu ddau aelod o staff - a oedd wedi'u cyfyngu o ran amser a gallu. Fe gymerwyd y rhan fwyaf o'u hamser i hyrwyddo'r Cynnig i ddarparwyr gofal plant, prosesu ceisiadau am y Cynnig gan rieni a gweinyddu taliadau a choladu data monitro ac ati. Gadawodd hyn ond ychydig o amser i ymgysylltu ymhellach â'r ysgolion.

3.29 Yn ail, roedd y rhan fwyaf o dimau Cynnig EILA yn cynnwys unigolion a oedd eisoes wedi sefydlu perthnasoedd gweithio da â'r sector gofal plant lleol ac roedd ganddynt lai o brofiad o ymgysylltu â'r sector addysg lleol. Fodd bynnag, roedd un tîm Cynnig EILA yn eistedd o fewn tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif adran addysg yr awdurdod lleol. Yn yr awdurdod hwn, gwnaed ymdrechion i ymgysylltu ag ysgolion er mwyn cael eu cefnogaeth wrth hyrwyddo'r Cynnig i rieni, ond hyd yn oed yma mae wedi bod yn her. Nid oedd rhai ysgolion yn yr EILA hwn yn teimlo'n gyfforddus wrth hyrwyddo Cynnig nad oedd wedi'i anelu at yr holl rieni a phlant; roedd hyn yn arbennig o wir am ysgolion sydd mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig lle'r oedd yr ysgol o'r farn na fyddai'r Cynnig yn berthnasol i lawer os unrhyw rai o'r rhieni gan na fyddent yn diwallu'r cymhwyster cyflogaeth. Yn ogystal, mae rhai ysgolion yn yr EILA hwn yn darparu 30 awr yr wythnos o FPN ar hyn o bryd ac oherwydd hynny, ni allai rhieni cyrchu oriau gofal plant pellach a ariennir gan y Cynnig yn ystod tymor yr ysgol.

3.30 Mae canfyddiadau eraill sy'n deillio o'r gwerthusiad hwn - yn arbennig y rhai hynny sy'n ymwneud â faint mae'r Cynnig gofal plant yn cyd-fynd â darpariaeth FPN ac yn dylanwadu arno, yn cefnogi'r farn y byddai perthnasoedd gweithio agosach rhwng darparwyr gofal plant a darparwyr addysg blynyddoedd cynnar o fudd i hygyrchedd y Cynnig. Gallai cysondeb a threfniadau gweithio agosach fel y rhain hefyd fod o fudd i'r ffordd y caiff y Cynnig ei hyrwyddo i rieni ac wrth gefnogi eu dealltwriaeth o'r Cynnig.

**Heriau cyfathrebu**

3.31 Yr her fwyaf wrth gyfathrebu'r Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf oedd y ffaith ei fod wedi'i gyflenwi mewn ardaloedd peilot ar draws y rhan fwyaf o EILAs. Roedd hyn yn galw am gyfathrebu wedi'i dargedu ac roedd yn cyfyngu ar ddefnyddio unrhyw ymgyrchoedd cenedlaethol neu ar draws awdurdodau. Roedd rhai o'r rhieni a gyfwelwyd yn teimlo eu bod wedi dysgu am y cynnig 'trwy siawns' tra bod eraill wedi nodi eu bod wedi dod yn ymwybodol o'r Cynnig rywfaint o amser ar ôl iddo gael ei lansio yn unig. Nododd darparwyr hefyd eu bod wedi rhagweld y byddai mwy o sylw yn y wasg a hysbysebion wedi bod ynghylch y Cynnig i gefnogi eu gwaith hyrwyddo eu hunain.

3.32 Dywedodd darparwyr y bu'n anodd i rai rhieni ddeall y Cynnig yn llawn, ac y gofynnwyd iddynt yn aml am beth a gwmpasid o dan y Cynnig, pryd y byddai'r plentyn yn gymwys, pa rieni oedd yn gymwys a sut y gallai'r Cynnig effeithio ar gynlluniau eraill sy'n cyfrannu at gostau gofal plant. Aeth darparwyr ymlaen i esbonio y gallai problemau gofal plant a blynyddoedd cynnar yn gyffredinol fod yn anodd eu deall ac nad oedd dryswch rhieni o reidrwydd yn gysylltiedig â'r Cynnig.

3.33 Roedd y termau a ddefnyddiwyd yn y cyfathrebu fel '30 awr' a 'gofal plant am ddim' wedi achosi peth dryswch hefyd. Nododd rhai rhieni a rhanddeiliaid hefyd fod cyfeirio at y Cynnig fel y Cynnig 'Gofal Plant' yn tynnu oddi wrth y ffaith bod addysg blynyddoedd cynnar yn rhan annatod o'r hyn sy'n cael ei gynnig. Nododd rhieni a darparwyr hefyd fod y ffordd yr oedd argaeledd gofal plant a ariennir yn ystod gwyliau ysgol yn cael ei gyfathrebu yn ddryslyd hefyd. Er enghraifft, nododd llawer o

rieni nad oeddent yn sylweddoli ar y cychwyn bod y Cynnig ond yn darparu gofal plant a ariennir am naw o'r 13 wythnos o wyliau ysgol.

3.34 Nid y Cynnig Gofal Plant yw'r unig gymorth sydd ar gael i rieni yng Nghymru. Mae rhaglenni a mentrau eraill megis gofal plant di-dreth, credydau treth plant a thalebau gofal plant ar gael i rai rhieni cymwys hefyd. Mae'r ystod o becynnau cymorth eraill a sut maent yn rhyngweithio ag a dylanwadu ar ei gilydd wedi arwain at ddryswch ymysg rhai rhieni hefyd. Nid oedd dau riant a gafodd eu cyfweld yn ystod y gwerthusiad hwn, a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig, wedi cyrchu'r cymorth gan eu bod yn ofni y byddai'n ofynnol iddynt roi'r gorau i'w cymorth Credyd Treth Plant a fyddai, yn eu barn hwy, yn eu gadael yn waeth eu byd yn ariannol.

3.35 Ar yr adeg y lansiwyd y Cynnig gyntaf, roedd canfyddiadau'n ymwneud â gwerthuso'r cynllun peilot cynnig gofal plant yn Lloegr yn cael eu hadrodd yn y wasg genedlaethol; rhywfaint ohono'n eithaf negyddol ar y pryd. Roedd hyn yn creu rhywfaint o ddryswch i rieni a darparwyr yng Nghymru gan ei fod yn aml yn anodd, o'r wybodaeth oedd ar gael, iddyn nhw wahaniaethu rhwng y cynnig gofal plant yn Lloegr a'r Cynnig yng Nghymru. Er enghraifft, chwiliadau cyffredinol ar y rhyngrwyd a gynhaliwyd gan rieni a darparwyr a oedd yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am y Cynnig yng Nghymru, yn aml yn eu cyfeirio at wefannau yn ymwneud â'r cynnig yn Lloegr yn unig. Ychwanegodd diffyg unrhyw hyrwyddiad cenedlaethol o'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru ar y pryd at y dryswch hwn.

## 4. Casgliadau

4.1 Mae'r papur hwn wedi crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad sy'n ymwneud â chyfathrebu a marchnata'r Cynnig Gofal Plant yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'n gynnar.

4.2 Un o'r ffactorau llwyddiant allweddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru yn gynnar oedd y berthynas weithio a chyfathrebu da a sefydlwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac EILAs. Fe wnaeth EILAs groesawu natur agored y broses gyfathrebu a fabwysiadwyd gan fod hyn yn sicrhau na chafodd y Cynnig ei ystyried yn bolisi 'cyfarwyddol' a osodwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru.

4.3 Roedd ymdrechion i hyrwyddo'r Cynnig wedi'u canolbwyntio'n bennaf yn yr ardaloedd peilot cytunedig ar draws pob un o'r EILAs. O fewn yr ardaloedd hyn, rhaeadrwyd gwybodaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru i EILAs, oddi wrth EILAs i ddarparwyr ac oddi wrth ddarparwyr i rieni.

4.4 Ar y cyfan, ymddengys fod y gadwyn gyfathrebu hon wedi gweithio'n dda. Fodd bynnag, roedd diffyg ymgyrch genedlaethol neu hyd yn oed, yn y rhan fwyaf o achosion, ymgyrch EILA i hyrwyddo'r Cynnig, yn cyfyngu ar gyrhaeddiad y broses hon o raeadru gwybodaeth. Gosodwyd cyfyngiadau pellach ar gyrhaeddiad gweithgareddau hyrwyddo cynnar oherwydd y ddibyniaeth fawr a roddwyd ar y darparwyr gofal plant i hysbysu rhieni o'r Cynnig.

4.5 Mewn llawer o achosion, dim ond rhieni a oedd eisoes yn defnyddio gofal plant ffurfiol â'r darparwyr hynny a ddaeth yn ymwybodol o'r Cynnig yn ystod y cyfnod cynnar. Roedd rhieni a oedd yn defnyddio gofal plant anffurfiol, yn ogystal â'r rhai hynny'n derbyn gofal plant â darparwyr nad oeddent wedi cofrestru i gyflwyno'r Cynnig, yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'i fodolaeth. Mae hyn yn amlwg yn y ffaith bod y mwyafrif helaeth o'r rhieni a gyrchodd y Cynnig (90 y cant) wedi cyrchu gofal plant o'r un darparwr o'r blaen (Gweler prif adroddiad y gwerthusiad).

4.6 Nid oedd rôl ysgolion wrth gyfathrebu a hyrwyddo'r Cynnig i rieni yn ganolbwynt i'r gwerthusiad hwn. Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â hyn, ar hyn o bryd, yn gyfyngedig felly o'i chymharu â'r dystiolaeth a gasglwyd o safbwynt darparwyr a thimau Cynnig EILA. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu nad yw'r ysgolion


wedi chwarae rôl sylweddol wrth hyrwyddo'r Cynnig hyd yn hyn. Mae adborth gan ddarparwyr gofal plant hefyd yn awgrymu y byddai croeso i rôl gynyddol i ysgolion wrth roi cyhoeddusrwydd i'r Cynnig yn y dyfodol.

4.7 Fel y'i nodwyd uchod, mae llawer o'r heriau sy'n ymwneud â chyfathrebu a marchnata yn rhai sy'n gysylltiedig â chyflenwi menter mewn ardaloedd peilot dethol, ac ni fydd heriau targedu rhieni mewn codau post penodol yn gymwys yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae rhai gwersi sydd eisoes wedi'u dysgu a sy'n berthnasol ar gyfer cyflenwi yn y dyfodol. Yn gyntaf, mae'r broblem ynghylch y posibilrwydd y gallai rhai rhieni golli'r cyhoeddusrwydd oherwydd eu bod yn rhagdybio nad ydynt yn gymwys yn un y mae angen mynd i'r afael â hi. Yn ail, dylai'r egwyddor o symleiddio'r holl ohebiaeth â rhieni fod yn gymwys ar draws pob ardal gyflenwi newydd. Mae'r EILAs wedi coethi a symleiddio eu negeseuon i rieni fel eu bod yn tynnu sylw'r rhieni at y wybodaeth allweddol yn yr hyn sydd eisoes yn amgylchedd addysg a gofal cymhleth yn ystod plentyndod cynnar.

## 5. Argymhellion

- Wrth i ni symud yn nes at gyflwyniad cenedlaethol, dylid ystyried ymagwedd fwy canolog tuag at hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth. Ymddengys fod dibyniaeth gyfredol ar ddarparwyr gofal plant i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r Cynnig yr ymddengos ei bod yn cyfyngu ar gyrhaeddiad posibl gweithgareddau hyrwyddo, yn arbennig ymhlith y rhai hynny nad ydynt yn defnyddio FPN neu ofal plant ffurfiol ar hyn o bryd.
- Mae'n werth ystyried gwaith ymchwilio a dadansoddi pellach i ddeall pam mae rhai rhieni/gwarcheidwaid yn dewis peidio â derbyn hawl i gael addysg gynnar neu hawliau gofal plant am ddim. Gallai ymwybyddiaeth a dealltwriaeth fod yn rhan o'r broblem, felly gallai profi pellach ar ddulliau cyfathrebu neu eirio cyn y cyflwyniad cenedlaethol yn 2020 gyfrannu at well dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth a diddordeb yn y cyd-destun hwn.
- Efallai y bydd angen mwy o gysondeb rhwng ysgolion sy'n darparu FPN a darparwyr Gofal Plant er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig yn ogystal â sicrhau y gall rhieni gyrchu llinynnau gofal plant ac addysg flynyddoedd cynnar y Cynnig.
- Efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol a chliriach er mwyn helpu rhieni i gyfrifo costau gofal plant trwy ystyried budd-daliadau eraill sydd ar gael iddynt, gan gynnwys credyd treth plant.

## Atodiad A: Model Rhesymeg y Cynnig Gofal Plant




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dyddiedig Ebrill 2018.

**Atodiad B: Sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad**

Arolygiaeth Gofal Cymru
Plant yng Nghymru
Comisiynydd Plant Cymru
Chwarae Teg
Clybiau Plant Cymru
Blynyddoedd Cynnar Cymru (a elwid yn Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn flaenorol)
Timau Cynnig Gofal Plant EILA
Estyn
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Mudiad Meithrin
NDNA (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd)
PACEY (Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar)
Chwarae Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Llywodraeth Cymru (swyddogion o'r timau Cynnig Gofal Plant, Cyfnod Sylfaen, Menter a Rhieni Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)
CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)